Enw

DARLLENWCH
Mathew 2: 13-23

Mae'r stori hon yn sôn am:
Duw yn edrych ar ôl Ei Fab.

Story 4 Ffoi i'r Aifft

Roedd Herod wedi bod yn disgwyl i'r Doethion ddod nôl. Ond ddaethon nhw ddim! Roedden nhw wedi ufuddhau i Dduw ac wedi mynd adref yn syth. Aeth Herod yn gynddeiriog a phenderfynodd bod rhaid lladd pob bachgen bach ym Methlehem oedd dan ddwy flwydd oed!



Dyna beth ofnadwy i'w wneud! A'r cyfan am fod Herod yn poeni y gallai'r Plentyn hwn, un diwrnod, ddod yn Frenin yn ei le!

Siaradodd Duw gyda Joseff mewn breuddwyd. Dywedodd wrtho am ddianc gyda'i deulu i'r Aifft. Byddai'n ddiogel yno hyd nes y byddai Duw'n dweud wrtho am ddychwelyd.

Ymhen amser, bu farw Herod. Dywedodd Duw wrth Joseff ei bod bellach yn ddiogel iddyn nhw fynd nôl i Israel. Felly, gadawodd Joseff, Mair ac Iesu wlad yr Aifft ac aethant i Nasareth.

I ble'r aeth Joseff a'i deulu? N __ __ __ __ __ ___ .

Dyma ble tyfodd Iesu'n ddyn, gan blesio Ei deulu, Ei gymdogion ac, yn bwysicaf oll, Duw, Ei Dad. Gyda help Duw, gallwn ninnau ddilyn Ei esiampl. Drwy'r cyfan i gyd, roedd Duw yn gofalu am Ei Fab. Roedd Duw yn fodlon gyda Mair a Joseff hefyd am iddyn nhw ufuddhau i'r cyfan roedd Duw wedi'i orchymyn.

Lliwiwch y geiriau.

"Iesu, Mab Duw."

Nadolig Llawen iawn i chi.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120